# CYNGOR CYMUNED CLYNNOG FAWR

---------------------------------------------

Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Clynnog fawr a gynhaliwyd yn Neuadd y Pentref, Clynnog nos Fawrth 17eg o Fawrth 2026

**1.** Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod.

**2. <u>Ymddiheuriadau</u>** – Eirian Allport, Gwenno Griffiths, Eleri Owen, Iwan Williams, Sion Tomos, Rhys Jones

**<u>Presennol</u> –** Aaron Hughes (cadeirydd), Eifion Jones, Ken Williams, Thomas Williams, Elias Jones, Guto Rhys Huws, Cyng Dafydd Davies,

**3. <u>Gwadd</u>** – Croesawyd Dylan Herbert, Rheolwr Materion Allanol y Grid Cenedlaethol atom i ddweud am y prosiect uwchraddio sydd yn mynd ymlaen ganddynt. Esboniodd bod y grid yn gorfod gwneud y gwaith uwchraddio gan nad oes dim wedi ei wneud ers y 50au ac bo hynny ar gyfer gofynnion trydan yr amser hyn a bellach nid yw'r system i fyny i'r gofynion. Mae gwaith yn mynd ymlaen yn barod yn Pentir a Penrhyndeudraeth ac ar fin dechrau yn Bryncir. Esboniodd bod y grid wedi cysylltu â chynghorau cymuned, cynghorwyr, tirfeddianwyr ayyb ac wedi rhoi arwyddion ar diroedd lle nad ydynt wedi eu cofrestru ar y gofrestr tir yn y gobaith y daw perchnogion ymlaen. Mae gwefan ganddynt ar gyfer yr ymgynghoriad sydd yn mynd ymlaen, ac ar hyn o bryd nid oes cynllun terfynol hyd nes bydd adborth wedi ei dderbyn. Yn dilyn hyn bydd sesiynau yn cael eu cynnig ar gyfer y cyhoedd a bydd un o'r rhain yn cael eu cynnal yn Clynnog. Mae hyn yn ddyddiau cynnar yn y prosiect ac yn gryno nid oes lleoedd penodol wedi eu penodi eto. Golyga hyn na fydd peilonau a bydd 90% o'r ceblau o dan y môr gyda 10% ar dir. Esboniodd hefyd bod yna lawer o asiantaethau eraill yn cyd-weithio gyda nhw er enghraifft yr asiantaeth forwrol a bywyd gwyllt, Scottish Power ayyb. Diolchwyd i Dylan am ei gyflwyniad ac edrychwn ymlaen i glywed pryd bydd y sesiwn i'r cyhoedd yn cael ei gynnal.

**4. <u>Cofnodion cyfarfod 17eg o Chwefror 2026</u>** – Cynigwyd gan Thomas Williams ac eiliwyd gan Ken Williams fod y cofnodion yn gywir.

**5 . <u>Materion yn Codi</u>**

1. Ynys Wyllt - Aaron Hughes wedi siarad gyda'r gyfreithwraig a adroddwyd eu bod nhw wedi rhoi y gwaith drosodd i gyfreithwraig newydd yn y cwmni. Trafodwyd y mater a cynigwyd gan Thomas Williams i ni gario ymlaen gan fod popeth ganddynt yn barod a fod y telerau yr un fath. Eilwyd gan Eifion Jones. Angen i'r clerc yrru unrhyw wybodaeth iddi yn dilyn o'r ebost sydd wedi ei yrru a gofyn os oes unrhyw gyfathrebiad wedi dod gan berchenog Plas Y Bryn.

2. Mynediad i'r fynwent – fel uchod.

3. Pont Tai Lôn a Pantafon – y gwaith yma dal heb ei orffen ond ar y gweill.

4. Arwydd cyflymder – Cyngor Gwynedd am ei osod yn fuan.

5. Deffibs – y cabinet newydd wedi cyrraedd a'r trydanwr wedi dechrau y gwaith o'i osod, gobeithio ei fydd wedi gorffen fory (18/03/26).

6. Biniau - Cyng. Dafydd Davies wedi gofyn yn i Gyngor Gwynedd osod y bin baw ci yn nôl wrth lwybr Cae'r Bont ac yn disgwyl ymateb gan swyddog o'r cyngor.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad ………………………………………………………………

7. Cwynion am chwyn o gwmpas y pentrefi – dal angen gwaith ar y strydoedd. Aaron Hughes i holi am hyn.

8. Ffoes Simbil – dal dim wedi ei wneud. Cyng Dafydd Davies wedi siarad gyda swyddog a oedd yn ymddeol ac roedd am ei basio ymlaen i'r swyddog newydd. Cyng. Davies wedi gofyn iddynt gysylltu er mwyn trefnu mynd yno.

9. Golau Nadolig – Gofyn i Cyngor Gwynedd osod golau stryd wrth y diffib yn Pontllyfni a rhoi socet ar gyfer coeden yr un pryd – Cyng. Dafydd Davies am holi am hyn pan fyddant yn dod i osod yr arwydd cyflymder.

10. Torri Gwair – heb gael ymateb gan Geraint Hughes o Gyngor Gwynedd felly angen dilyn fyny ar hyn.

11. Arwyddion llwybr lan môr – wedi derbyn proflen ar gyfer yr arwyddion i pawb weld. Pawb yn hapus ac archebu 10 arwydd. Hefyd, gofyn am arwydd yr un fath maint A4 ar gyfer ei sticio ar safle'r bws. Holi hefyd am reolau gosod camerau TCC mewn lle cyhoeddus.

**6. Ceisiadau cynllunio** – dim

**7. Materion ariannol**

a) Sefyllfa ariannol ar 28ain o Chwefror 2026

| | |
|---|---|
| Cyfrif cadw (elusen) | £159.19 |
| Cyfrif cyfredol | £13173.58 |

b) Rhent – cynigwyd y dylid cael cyngor proffesiynnol ar faint ddylid ei godi ar y gwahanol lleoedd. Trafod y mater ymhellach yn y cyfarfod mis nesaf. Y clerc methu cael ymateb gan berchnogion Sweetholme – cynnig i yrru at y gwerthwyr tai i nodi bod yna ddarn o dir yn berchen y Cyngor Cymuned a bod yna rent i'w dalu.

c) Cais am arian gan Côr yr Heli – trafod a gwrthod ond iddynt drio eto flwyddyn nesaf. Ysgol Dyffryn Nantlle – trafod y ceisiadau. Buasai criw yr ysgol yn casglu sbwriel am gyfraniad. Cynigwyd i roi £200 a £500 i Ysgol Dyffryn Nantlle. Eilwyd i gyfrannu £500 am gasglu o safle lle tatoos i Hen Bant a gadael y bagiau sbwriel yn Llwyn Isaf. Cytunwyd gyda hyn yn unfrydol.

d) Yswiriant blynyddol – renewal wedi ei dderbyn. Cynigwyd ac eilwyd i'w dderbyn.

**8. Gohebiaeth –** pawb wedi cael copiau o'r ohebiaeth a nid oedd dim yn codi.

**9. Materion aelodau** – Eifion Jones – gor-yrru wedi gwaethygu drwy'r pentref. Trafodwyd os bysa arwydd gor-yrru yn gweithio. Cynigwyd i ofyn i'r heddlu cadw golwg ar y sefyllfa. Cyng Dafydd Davies am siarad hefo Andrew Gregson i ofyn am strips ar y ffordd i gyfrifo y cyflymder dros gyfnod o amser. Hefyd, holi i gael arwyddion plant yn chwarae.

**9. Materion eraill –** dim.

**10. Cyfarfod nesaf -** Bydd y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar nos Fawrth, 21ain o Ebrill 2026 am 7.30 yr hwyr yn y Neuadd Bentref yng Nghlynnog.

Arwyddwyd ………………………………………………………… (Cadeirydd)

Dyddiad …………………………………………………………….